

ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Tachwedd 26ain, 2018

Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Pwnc:	Gorchymyn Parcio, Y Fach, Abersoch
Swyddogion Cyswllt:	Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo, Adran Amgylchedd

Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Mannau Parcio Oddi ar y Stryd, y Fach, Abersoch

Barn yr aelod lleol

Cadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r Gorchymyn.

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r ardal ger y Fach, Abersoch ar ymyl priffordd yr A499 ac yn llecyn poblogaidd gyda rhai sy'n dymuno ymweld â'r traeth gerllaw. Dros y blynyddoedd mae modurwyr wedi bod yn parcio ar ymyl y ffordd heb unrhyw drefn reolaethol. Roedd cerddwyr yn croesi'r briffordd brysur hon heb unrhyw groesfan ffurfiol gan greu risgiau diogelwch.
- 1.2 Er mwyn ymestyn y gofod parcio sydd ar gael, gwella safon y ddarpariaeth a chreu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr a modurwyr, bu i'r Cyngor fuddsoddi'r llynedd mewn cynllun oedd yn galluogi parcio a chroesi'r ffordd mewn modd diogel a threfnus.
- 1.3 Ar yr un pryd cynhaliwyd ymgynghoriad ar y trefniadau rheolaethol fyddai eu hangen er mwyn sicrhau fod y gofod parcio hwn yn cael ei reoli'n synhwyrol. Mae angen sicrhau'r gallu i wneud yn siŵr na fyddai'r gofod yn cael ei gamddefnyddio gan fodurwyr neu garafanwyr am gyfnodau hir ac i hybu trosiant rhesymol yn ystod y dydd.
- 1.4 Derbyniwyd sylwadau ar y bwriad a chynhaliwyd trafodaethau gyda'r Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned cyn dod i gasgliadau ar y trefniadau mwyaf synhwyrol, sef i gyflwyno trefniadau talu ac arddangos yn ystod y tymor gwyliau yn unig (Mawrth i Hydref) a gwahardd y defnydd gan garafanau a charafanau modur rhwng 10y ac 8yb.

2. Y GWRTHWYNEBIAD

2.1 Gweler copi o ohebiaeth y gwrthwynebydd yn Atodiad B.

2.2 Gweler isod grynodedb o'r materion y cyfeirir atynt gan y gwrthwynebydd ynghyd ag ymateb y Cyngor ym mhob achos:

Pwnc	Ymateb y Cyngor
Codi tâl am barcio	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Parcio ers blynyddoedd lawer sydd yn cynnwys criteria penodol ar gyfer codi tâl am barcio. Yn unol â chriteria'r Strategaeth, bwriedir codi tâl am ddefnyddio'r maes parcio hwn gan ei fod mewn lleoliad sy'n cael defnydd dwys gan dwristiaid. Ni fydd tâl yn cael ei godi tu allan i'r tymor gwyliau (Tachwedd i Chwefror).• Mae'r incwm sy'n cael ei greu o feysydd parcio yn gwneud cyfraniad tuag at y gost o gynnal rhwydwaith priffyrdd y sir a chynnal y 106 o feysydd parcio a ddarperir gan y Cyngor.• Mae codi tâl am barcio mewn llefydd priodol yn hybu trosiant ac yn sicrhau nad oes camddefnydd o'r llecynnau parcio e.e. parcio am gyfnodau hir iawn, defnydd gan deithwyr heb ganiatâd ayb
Y ffi parcio	<ul style="list-style-type: none">• Mae ffioedd parcio'r Cyngor wedi eu hadolygu fel rhan o'r Strategaeth Parcio ac yn gyson ar hyd a lled y sir gan gymryd i ystyriaeth y math o leoliad ayb. Mae'r lleoliad dan sylw yn lleoliad poblogaidd gyda thwristiaid ac yn gyson gyda lleoliadau eraill tebyg.
Diogelwch	<ul style="list-style-type: none">• Mae osgoi unrhyw risgiau diogelwch yn rhan greiddiol o'r broses ddylunio ym mhob cynllun o'r math yma ac mae'r datblygiad yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r holl ofynion iechyd a diogelwch. Sicrhawyd caniatâd cynllunio ac fel rhan o'r dyluniad mae'r parth 30mya wedi ei ymestyn er mwyn lleihau cyflymdra cyn cyrraedd y llecyn hwn.• Gwella diogelwch modurwyr a cherddwyr oedd un o'r prif resymau dros greu'r adnodd newydd hwn.

3. CASGLIADAU

3.1 Crëwyd yr adnodd parcio hwn mewn ymateb i ddyheadau'r gymuned leol. Mae'r bwriad wedi ei hysbysebu yn unol â'r gofynion statudol ac wedi ennyn cefnogaeth gyffredinol. Dim ond un gwrthwynebiad sydd i law.

3.2 Argymhellir fod yr ymateb uchod i'r pwyntiau unigol a godwyd gan y gwrthwynebydd yn cefnogi a chyfiawnhau'r bwriad i gadarnhau'r Gorchymyn Parcio.

ATODIADAU

- A - Copi o'r Rhybudd i greu Gorchymyn Parcio Mannau oddi ar y stryd, y Fach, Abersoch.
- B – Gohebiaeth y gwrthwynebydd.